# Adroddiad Arolygu

**Crwban Bach**

**Ysgol Caer Elen**
**Ffordd Llwynhelyg**
**Hwlffordd**
**SA62 4BN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Crwban Bach

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Elizabeth Davies |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac maent yn gwneud ffrindiau gyda'u cyfoedion. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir iddynt.

Mae'r staff yn deall polisïau'r lleoliad ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant y plant. Mae'r staff yn rheol risgiau ac yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Mae'r staff yn darparu amgylchedd magwrus a gofalgar. Maent yn fodelau rôl da, drwy feithrin hyder a hunan-barch y plant yn eu gofal.

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r staff yn nodi risgiau diangen i'r plant ac yn eu dileu cymaint â phosibl. Mae dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau ar gael i'r plant sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae dyluniad a chyflwr yr adnoddau yn addas, ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae datganiad o ddiben clir gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, sy'n disgrifio'r weledigaeth ar gyfer y lleoliad yn dda. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel er mwyn sicrhau bod digon o staff cymwys a phrofiadol ar gyfer yr amrywiaeth o blant y gofelir amdanynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cefnogi eu staff yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau. Mae ganddynt bartneriaethau da â'r ysgol ar y safle ac mae'r rhieni yn gefnogol i'r lleoliad.

## Llesiant — Da

Mae gan y plant lais cryf. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Rhoddir amrywiaeth o gyfleoedd iddynt wneud dewisiadau, ac maent yn gyfforddus i ofyn am adnoddau penodol. Mae llawer o'r plant wrth eu bodd yn y lleoliad ac yn mynegi eu mwynhad. Wrth gyrraedd y lleoliad, mae'r plant yn cynllunio beth i'w wneud ar ôl amser byrbryd. Er enghraifft, mae'r plant yn dewis eu gweithgareddau ac mae ganddynt y rhyddid i dreulio eu hamser ar un gweithgaredd neu symud o un ardal i'r llall.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Maent yn fodlon ac yn setlo'n gyflym am fod y staff yn eu croesawu wrth gyrraedd. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau da iawn. Maent yn gyfarwydd iawn â threfn ddyddiol y lleoliad. Mae'r plant yn mynd ati'n hyderus i ddechrau chwarae gemau ac yn gofyn am gymorth gan y staff pan fo angen. Mae ganddynt gydberthnasau agos ag oedolion cyfarwydd.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson, ac mae llawer o'r plant yn cyfathrebu'n hyderus. Mae llawer o'r plant yn chwarae gyda phlant eraill yn gyffrous neu'n eistedd wrth y bwrdd i chwarae gem gydag aelod o'r staff. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant yn chwarae gem gardiau 'disgrifiwch y llun' gydag aelod o'r staff. Gwelsom y plant yn rhannu syniadau â'i gilydd, yn cydweithio, yn cymryd eu tro, yn dangos amynedd, ac yn cael hwyl wrth iddynt greu llong môr-ladron o flociau adeiladu. Mae ganddynt y rhyddid i archwilio'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored, ac maent yn dangos parch at yr eiddo a'i gilydd yn gyson.

Mae'r plant yn dewis o amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n ysgogol ac yn ddiddorol. Mae llawer o'r plant iau yn manteisio ar gyfleoedd i dynnu lluniau a lliwio, chwarae gemau bwrdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau crefft fel gludo siapiau calonnau. Mae'r plant hŷn yn mwynhau chwarae gemau â phêl ar yr ardal laswellt yn yr awyr agored. Mae plant o wahanol oedrannau yn defnyddio'r gwasanaeth ac, ar y cyfan, mae'r plant hŷn yn cefnogi'r plant iau ac yn cael eu hystyried yn fodelau rôl. Er enghraifft, wrth fwyta eu byrbryd, mae'r plant hŷn yn helpu'r plant iau i agor pecynnau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall y polisïau ac yn eu gweithredu'n gyson. Maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgarwch corfforol, diogelwch a llesiant personol y plant. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, ni chafodd y plant eu hannog i olchi eu dwylo cyn bwyta eu byrbryd. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym (Arolygiaeth Gofal Cymru, AGC) fod pob plentyn yn golchi ei ddwylo cyn cyrraedd y gwasanaeth. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a diogelu. Mae polisi amddiffyn plant ar waith a chaiff diogelu ei flaenoriaethu. Mae gan y staff ddealltwriaeth fanwl o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau ac yn cwblhau cofnodion mewn perthynas â meddyginiaeth a damweiniau. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion o ddamweiniau yn cynnwys llofnodion rhieni/gofalwyr. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn rhannu'r wybodaeth hon â'r rhieni. Yn dilyn yr ymweliad, cadarnhaodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fod addasiadau wedi'u gwneud i'r cofnodion presennol, sy'n galluogi'r rhieni i lofnodi a chydnabod y cofnod ysgrifenedig o'r ddamwain.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda, gan helpu'r plant i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol yn dda. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau a chwestiynau'r plant ac yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes a chyson. Maent yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth garedig drwy gydol y sesiwn. Maent yn garedig, yn ofalgar ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Mae'r staff yn fodelau rôl dda. Maent yn datblygu dealltwriaeth y plant o ymddygiad da a chyson. Maent yn symud o amgylch yn barhaus i gynorthwyo'r plant, ac yn eistedd wrth eu hymyl wrth y bwrdd neu ar y llawr i chwarae. Mae lefel y cyfathrebu rhwng y staff a'r plant yn dangos yn glir fod y plant yn hapus, yn gyfforddus ac yn teimlo'n gartrefol yng nghwmni'r staff. Roedd hyn yn amlwg wrth i un plentyn dynnu coes yr arweinydd fod ganddo ei gadair ddynodedig ei hun yn ystod amser byrbryd.

Mae'r staff yn brofiadol ac yn wybodus. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae hyn yn effeithio ar eu profiadau dysgu. Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn darparu awyrgylch magwrus a gofalgar ac yn rhoi gofal ymatebol. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad y plant drwy ddarparu profiadau chwarae a dysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion amrywiaeth ac yn hyrwyddo hawliau'r plant. Wrth gynorthwyo'r plant yn ystod eu gweithgareddau, fel tynnu lluniau, chwarae gemau a chwaraeon, maent yn hyrwyddo rhyddid ac annibyniaeth. Drwy ddilyn diddordebau'r plant, maent yn meithrin hyder a hunan barch pob plentyn. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn achlysurol. Mae'r staff a'r plant yn cyfathrebu'n hyderus â'i gilydd yn iaith yr amgylchedd. Mae'r staff yn rhoi adborth clir ar lafar i'r rhieni pan fyddant yn casglu eu plant.

| Yr Amgylchedd | Da |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi mesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r clwb wedi'i leoli yn yr ysgol ac mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar gydag ardal agored a diogel o faint da, ynghyd ag ardal awyr agored ddynodedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod trefniadau glanhau trylwyr ar waith sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Roedd hyn yn amlwg yn ystod yr ymweliad ac ar ddiwedd y sesiwn. Maent yn cynnal asesiadau risg pwrpasol, yn ogystal ag asesiadau risg tân cywir. Fodd bynnag, mae angen adolygu rhai o'r rhain. Yn dilyn yr ymweliad, gwelsom dystiolaeth bod tystysgrifau diogelwch yr adeilad ar waith. Nid oedd y profion PAT wedi cael eu cwblhau'n llawn ar gyfer pob eitem drydanol. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym mai'r ysgol sy'n gyfrifol am brofi'r eitemau trydanol, a'u bod wrthi'n cael eu profi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda. Nid oes unrhyw beryglon yn yr ardaloedd dan do nac yn yr awyr agored, ac mae'r staff goal yn cwblhau asesiadau risg gweledol bob dydd. Mae pob ymwelydd yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael. Mae'r staff yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael eu hunain a rhai'r plant yn ddyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff gwaith papur y clwb ei storio'n gyfrinachol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r rhifau a'r cymarebau rhwng y staff a'r plant yn gywir. Mae'r safle yn cynnig lefel dda o ddiogelwch ac mae'r prif adeilad yn cael ei gadw ar glo bob amser. O ganlyniad, mae gan y plant y rhyddid i symud o amgylch ardaloedd dynodedig y lleoliad yn annibynnol ac yn ddiogel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd sy'n addas i'r plant. Mae'r plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn o faint addas yn yr adeilad. Gall y plant gael gafael ar gyfarpar ac adnoddau yn annibynnol neu gallant ofyn am adnoddau ychwanegol sydd wedi'u storio y tu hwnt i'w cyrraedd. Gallant hefyd ddefnyddio ardal awyr agored o faint da sy'n cynnwys ardal laswellt ac ardal chwarae dan gudd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da ar gael i'r plant. Mae digon o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Caiff yr holl deganau a gemau eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da a chânt eu storio ar lefel sy'n addas ar gyfer taldra'r plant. Mae'r cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu'r lleoliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn ac maent yn hyrwyddo canlyniadau da i'r plant. Dywed y staff wrthym eu bod yn hapus ac yn cael eu cefnogi'n dda. Mae arferion cyson ym mhob rhan o'r lleoliad ac mae'r staff yn gweithio'n dda iawn fel tîm. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiweddaru yn ystod y broses arolygu i gynnwys cyfeiriad y gwasanaeth, ac mae bellach yn adlewyrchu'r hyn a gynigir yn gywir.

Mae polisïau a gweithdrefnau ynghyd â chofnodion ar waith. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r rhain yn unol â'r dyddiad a ddogfennwyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant a'r cofrestrau. Fodd bynnag, nid oedd contractau ar waith rhwng darparwr y gwasanaeth â defnyddwyr y gwasanaeth. Roedd rhai dogfennau ar goll yn ffeiliau'r staff yn ystod yr ymweliad. Fodd bynnag, cafodd y rhain eu diweddaru yn ystod yr ymweliad arolygu i gynnwys datganiad wedi'i lofnodi mewn perthynas â phrawf adnabod, disgrifiad swydd, a datganiad iechyd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn effeithiol drwy gynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Mae gwiriadau cadarn wedi'u cynnal cyn eu cyflogi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adnabod eu gwasanaeth yn dda. Maent yn ymgynghori â'r plant a'r rhieni fel rhan o'r broses werthuso ac yn llunio adolygiad ysgrifenedig o ansawdd y gofal. Fodd bynnag, ni chaiff safbwyntiau'r staff eu cynnwys ar hyn o bryd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu tîm o staff sy'n cydweithio'n agos ac yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad ac, er bod y gwaith ar ddiwedd y diwrnod ysgol, eu bod yn mwynhau'r profiadau gwahanol gyda'r plant yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei ddarparu i'r staff a bod yr holl dystysgrifau gorfodol ar waith. Dywedodd y staff eu bod yn gallu codi materion yn hawdd a bod gofynion unigol yn cael eu hystyried. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg yn ogystal â diwylliant Cymru.

Rhoddir gwybodaeth i'r rhieni am amser eu plentyn yn y clwb drwy adborth ar lafar. Mae'r rhieni yn gefnogol ac yn canmol y lleoliad yn fawr. Gwelsom enghreifftiau amlwg o gydberthnasau da iawn a chyfathrebu clir. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn werthfawr dros ben a bod eu plant yn mwynhau mynd yno.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 2 – Y Contract | Sicrhau bod contractau ar waith rhwng darparwr y gwasanaeth â defnyddwyr y gwasanaeth. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff pob polisi, gweithdrefn ac asesiad risg eu hadolygu'n rheolaidd. |
| Safon 5 – Cofnodion | Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn llofnodi cofnodion o ddamweiniau. |
| Safon 10 – Gofal Iechyd | Sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd. |
| Safon 18 – Sicrhau ansawdd | Sicrhau y caiff safbwyntiau'r staff eu casglu ar gyfer yr adolygiad o ansawdd y gofal. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff profion PAT eu cwblhau bob blwyddyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/07/2024

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Nid oedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 2 – Y Contract | Sicrhau bod contractau ar waith rhwng darparwr y gwasanaeth â defnyddwyr y gwasanaeth. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff pob polisi, gweithdrefn ac asesiad risg eu hadolygu'n rheolaidd. |
| Safon 5 – Cofnodion | Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn llofnodi cofnodion o ddamweiniau. |
| Safon 10 – Gofal Iechyd | Sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd. |
| Safon 18 – Sicrhau ansawdd | Sicrhau y caiff safbwyntiau'r staff eu casglu ar gyfer yr adolygiad o ansawdd y gofal. |
| Safon 24 – Diogelwch | Sicrhau y caiff profion PAT eu cwblhau bob blwyddyn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/07/2024